COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 7 o RHAGFYR 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Alan Lewis,Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams,Caroline Williams,Aled Williams,Geraint Rosser,Meic Bowen a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Tracey James Heddwyn Jones a Geoff Hewitt

2476 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd.

2477 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 02/11/2020 fel rhai cywir.

2478 Materion yn codi.
Tud 1. Cofnod Rhif 2459 - Clwb Cymdeithasol Carwe. - Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir
Tud 1. Cofnod Rhif 2459- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 2. Cofnod Rhif 2471 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Arhoswn am ymatebion pellach.
Tud 2. Cofnod Rhif 2475 – Parc Gwynfryn – Gobeithir y bydd y gwaith wedi gorffen erbyn diwedd yn y dyddiau nesaf.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

Cynghorwr Linda Williams – Is-gadeirydd yn y gadair

Cynghorwr Margaret Rees yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2479 Ebeneser Crwbin – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £600.

2480 Ysgol y Fro,Llangyndeyrn – Cardiau Nadolig i'r rai dros 80 – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £60.

Margaret yn ail ymuno a'r cyfarfod

Cynghorwr Margaret Rees yn y gadair

2481 CISS – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2482 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

Cynghorwyr Ian Evans,Aled Williams,Geraint Rosser a Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2483 Ffederasiwn Ysgolion Carwe,Gwynfryn a Phont-henri - Cardiau Nadolig i'r rai dros 80 - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £150.

Ian,Aled,Geraint a Tyssul yn ail ymuno a'r cyfarfod

Cynghorwyr Tyssul Evans a Linda Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2484 Neuadd Pontiets – Rent y Llyfrgell – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1500.

Tyssul a Linda yn ail ymuno a'r cyfarfod

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2485 Neuadd Pontiets – Rent y Swyddfa – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £2000.

2486 Neuadd Pontiets – Coeden Nadolig – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £50.

2487 Neuadd Pontiets - Grant i'r Neuadd – Penderfynwyd danfon cyfraniad 0 £800.

2488 Bethel Llangyndeyrn – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2489 Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2490 Society of Local Council Clerks – Aelodaeth 2021 – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r cyfraniad o £112.00.

2491 Association of Local Council Clerks – Aelodaeth 2021 – Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r cyfraniad o £40.00.

2492 Gwasanaeth Ambiwlans Cymru – Cofrestri Defibrillator's – Penderfynwyd danfon manylion rai Carwe/Pontiets a Llangyndeyrn ymlaen.

Ceisiadau Cynllunio

2493 a) Rhif y Cais – PL/00722 – Coed Adam,Nantycaws – Cabanau Pren– Dim Gwrthwynebiad

b) Rhif y Cais - PL/00727 – Pantyrhin,Pontyberem – Estyniad – Dim Gwrthwynebiad

c) Rhif y Cais – PL/00855 – Oakland,Pedair Heol – Ailosod Adeilad Amaethyddol – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2494 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2495 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Tachwedd 2020.Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2496 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Tachwedd)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Tachwedd)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Tachwedd)
ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Tachwedd)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Tachwedd)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Tachwedd)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Tachwedd)- £182.00
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Tachwedd) - £13.37
ff) Torri Gwair - Mis Tachwedd - £50.00
g) S Cox – Gwaith ym Marc Pontiets - £85.00
ng) Wicksteed – Gwaith ym Marc Meinciau - £13.50
h) Torch Pabi Coch - £16.00

2497 Adroddiad yr Is-bwyllgor Cyllid – 26/11/20.

Wedi trafodaeth lwyr penderfynwyd derbyn yr argymhellion a nodir isod :-

1. **Presept 2021/2022 -** Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd gan Ian Evans ac eiliwyd gan Tyssul Evans ein bod yn codi'r Praesept 20% y flwyddyn am 2021 - 2022

2. **Parc Pontiets –** Cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Geoff Hewitt ein bod yn derbyn amcan-brys Dragon Play o £4730.00 i ail osod llawr o dan y siglenni.

3. **Parc Meinciau –** Cynigwyd gan Alan Lewis ac eiliwyd gan Tyssul Evans ein bod yn newid y rhaff ar yr offer dringo ar amcan-brys oddiwrth Wicksteed o £757.76

2498 Cais am Grant Llwybrau Diogel Mewn Cymunedau
Penderfynwyd gwneud cais ar ran trigolion Crwbin a Llangyndeyrn.

Cyfarfod nesaf:- 11eg o Ionawr 2021

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……